Cardiff & Vale HealthCharity Elusenlechyd Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

**Cwestiynau Cyffredin: Ysbyty Rookwood – Datganiadau o Ddiddordeb**

**26th Ionawr 2024**

1. Pam mae'r Bwrdd Iechyd a'r Elusen Iechyd yn bwriadu gwerthu Ysbyty Rookwood? A yw hyn oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol?

*Mae prif ran Ysbyty Rookwood wedi bod ar gau ers 2020 pan gafodd gwasanaethau eu hadleoli i Ysbyty Athrofaol Llandochau. Y rheswm am yr adleoli hwn oedd y cyfyngiadau yr oedd yr adeilad presennol a'r seilwaith o'i amgylch yn eu gosod ar gyfleuster ysbyty modern. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, mae'r Elusen Iechyd a'r Bwrdd Iechyd yn adolygu datganiadau o ddiddordeb ynghylch gwerthu safle Ysbyty Rookwood yn ei gyfanrwydd, neu mewn rhannau.*

2. A yw'r Elusen Iechyd ar wahân i'r Bwrdd Iechyd?

*Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yw elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cefnogi pob ward, adran, ysbyty, gwasanaeth cymunedol ac ardal ymchwil ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.*

*Mae'r Elusen Iechyd yn rheoli dros 300 o gronfeydd ar gyfer offer, ymchwil, triniaeth a gofal cleifion er mwyn i roddion allu cefnogi gwaith a phrosiectau y tu hwnt i'r hyn y mae cyllid arferol y GIG yn ei ddarparu. Mae darparu ymchwil ac offer arloesol yn ganolog i'n rôl elusennol.*

3. Ble fydd yr arian hwn o'r gwerthiant yn mynd a sut y caiff ei ddefnyddio?

*Buddiolwyr gwerthiant Ysbyty Rookwood fydd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, lle bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cleifion, staff, ymwelwyr a chymuned Caerdydd a'r Fro.*

4. A yw'r arian a gronnwyd gan yr Elusen wedi'i gynnwys fel asedau Cyllideb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro?

*Mae'r holl incwm fel incwm codi arian, cymynroddion neu grantiau a roddir i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ar wahân i'r BIP.*
*Cofnodir manylion llawn yr holl incwm a dderbynnir yn y cyfrifon blynyddol a'r adroddiad blynyddol.*
*Mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gwneud gwaith craffu manwl.*
*Mae Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad allanol o gyllid a chydymffurfiaeth o ran gweithredu o fewn y Ddeddf Elusennau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac fe'i hadroddir yn ffurfiol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a Llywodraeth Cymru.*

5. A oes adroddiadau cyhoeddedig o falans, gwariant a phryniannau'r Elusen?

Gweler yr ateb uchod, os gwelwch yn dda. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd: Bwrdd Cyhoeddus 2023 - 2024 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro tudalen 128 o bapurau diweddaraf y Bwrdd a hefyd drwy Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, hefyd gwefan yr Elusen Iechyd, o dan yr adran Adnoddau: Adnoddau | Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

6. A oes uchafswm y gellir ei ddal gan yr Elusen cyn iddi ollwng i gyllideb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro?

*Mae'r Cronfeydd Elusennol yn endid cwbl ar wahân i sefyllfa ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.*

*Mae'r incwm a gynhyrchir yn cefnogi cydweithwyr, cleifion a'r gymuned gyda gwaith y tu hwnt i'r hyn y mae'r GIG fel arfer yn ei ddarparu. Mae isafswm y mae'n rhaid i'r Elusen Iechyd ei gadw o'r enw cronfa wrth gefn, ond nid oes uchafswm. Mae'r Comisiwn Elusennau a'r Ddeddf Elusennau yn nodi'r manylion hyn sy'n sicrhau rheolaeth ariannol briodol ac fe'i nodir yn y Ddeddf: Charity reporting and accounting: the essentials November 2016 (CC15d) - GOV.UK (www.gov.uk)*

7. Pa wasanaethau Bwrdd Iechyd a ddarperir ar y safle a beth fydd hyn yn ei olygu i'r gwasanaethau hynny?

*Y gwasanaethau presennol sy'n gweithredu o'r safle yw'r Gwasanaethau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS), Technoleg Gynorthwyol Electronig (EATS), Gwasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru Cymru (WMDAS), Canolfan Brechu Torfol a Therapi Galwedigaethol. Bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn gwbl weithredol yn ystod y broses gyfan hon hyd nes y ceir cyfleuster newydd. Fel arall, os na chaiff y tir sy'n cynnal y gwasanaethau hyn ei werthu, cedwir hawliau mynediad, allanfeydd a gwasanaethu llawn.*

8. Beth fydd hyn yn ei olygu i wasanaethau eraill a ddarperir ar y safle, megis Gwasanaeth Asesu Symudedd a Gyrru De Cymru a Rookwood Spur?

*Bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn gwbl weithredol yn ystod y broses gyfan hon hyd nes y ceir cyfleuster newydd. Fel arall, os na chaiff y tir sy'n cynnal y gwasanaethau hyn ei werthu, cedwir hawliau mynediad, allanfeydd a gwasanaethu llawn.*

9. Ar gyfer beth y bydd safle'r hen ysbyty yn cael ei ddefnyddio?

*Nid oes unrhyw gynigion penodol ar gyfer y defnydd a wneir o'r safle yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y broses farchnata yn cynhyrchu'r opsiynau hyn.*

10. A fydd y gymuned yn rhan o unrhyw benderfyniadau ynghylch ailddatblygu'r safle?

*Bydd y gymuned yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar unrhyw geisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â'r datblygiad.*

11. Mae'r safle yn gartref i adeiladau rhestredig Gradd II, a fydd y gwerthiant yn parchu hyn? A fydd Ysbyty Rookwood a'r Tŷ Haf yn cael eu dymchwel?

*Gan fod elfennau o'r safle wedi'u rhestru, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar unrhyw gynigion i ddatblygu'r safle hwn i'w gwarchod.*

12. Mae nifer fawr o goed gwarchodedig ar y safle a Pharc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig. Sut allwch chi warantu diogelwch yr adeiladau, parciau a choed?

*Gan fod elfennau o'r safle yn barcdir cofrestredig gyda choed a warchodir, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar unrhyw gynigion i ddatblygu'r safle hwn i'w gwarchod.*

13. Pa mor hir fydd y cam datgan diddordeb yn ei gymryd?

*Cyhoeddir y Datganiadau o Ddiddordeb ar 24 Ionawr a chânt eu dychwelyd ar 21 Chwefror*.

14. Beth yw'r camau nesaf a'r amserlenni?

*Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu dadansoddi cyn cynnal proses farchnata lawn rhwng mis Mawrth a mis Mai. Ar ôl derbyn cynigion, bydd y broses yn cael ei llywio gan y math o gynnig. Bydd hyn yn pennu hyd y broses ar ôl mis Mai.*

15. Rhoddwyd safle Ysbyty Rookwood i ofal iechyd er mwyn helpu i adsefydlu cleifion a oedd wedi dioddef parlys, wedi colli aelodau o'r corff ac ati. Sut y gallwch sicrhau y bydd y gwasanaethau hanfodol hyn yn parhau i fod yn hygyrch? A fydd yr arian o'r gwerthiant o fudd i'r cleifion hyn?

*Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw fwriad i leihau'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r gwasanaethau cleifion mewnol a ddarparwyd yn flaenorol gan Rookwood eisoes wedi'u hailddarparu mewn cyfleusterau gwell yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Pe bai'r gwerthiant yn golygu adleoli'r gwasanaethau sy'n weddill ar y safle ar hyn o bryd, yna cychwynnir proses gyda'r holl randdeiliaid i benderfynu ar strategaeth addas.*

16. Ble fydd angen i gleifion sy'n defnyddio aelodau prosthetig ar hyn o bryd fynd i gael gosod/newid eu haelodau artiffisial?

*Bydd y cleifion hyn yn parhau i ddefnyddio safle Ysbyty Rookwood nes bod cyfleuster addas newydd yn cael ei ddarparu.*

17. A fydd y gymuned yn cael cynnig y cyfle i brynu Ysbyty Rookwood?

*Mae'r broses farchnata yn agored i bawb a gall unrhyw un gofrestru diddordeb a gwneud cynnig am y safle.*